

## Gweminarau – Y Busnes o Ailgylchu

### Y Sector Preswyl 6 Chwefror 2024

#### Cwestiynau ac atebion

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno atebion WRAP Cymru i'r cwestiynau a ofynnwyd gan fynychwyr yn ystod y gweminar Sector Preswyl a gynhaliwyd am 2yh ar 6 Chwefror 2024. Rydym wedi grwpio'r cwestiynau hyn yn ôl thema, weithiau mae un ateb ar gyfer nifer o gwestiynau.

Cod Ymarfer – [Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru | LLYW.CYMRU](#)

[Canllawiau y Busnes o Ailgylchu ar gyfer holl weithleoedd \(wrapcymru.org.uk\)v](#)

Cwestiwn	Ateb
<b>Cwestiynau ynghylch y mathau o ddeunyddiau i'w hailgylchu</b>	
A allwn ni ailgylchu tybiau bwyd plastig du o brydau parod?	Ni ddylid rhoi plastig du gyda'r plastig ailgylchadwy ond yn y bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu. Mae hyn fel y nodir yn atodiad 2 y Cod Ymarfer.
Ydyn ni'n gallu rhoi pecynnau swigod meddyginiaeth yn y gwastraff plastig er bod ganddyn nhw ffoil ar eu cefnau'n aml?	Na, ni ddylai pecynnau swigod fynd i'r ailgylchu deunydd pacio plastig. Efallai y byddwch yn gallu dod o hyd i ddarparwr arbenigol ar gyfer y deunydd hwn (nid yw'n ofyniad yn y rheoliadau newydd) neu dylech ei roi yn y bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu. Mae'r deunyddiau sydd i'w gosod yn y ffrydiau gwastraff ailgylchadwy wedi'u nodi'n fanwl yn atodiadau 1 i 6 o'r Cod Ymarfer.
Beth yw'r rheolau ar gyfer gwastraff bwyd hylifol neu led-hylifol ac a ellir ei anfon i garthffos (mae hyn yn cynnwys eitemau fel llaeth, iogwrt neu gawl)?	Os ydych yn cael gwared ar symiau mawr o'r mathau hyn o wastraff bwyd yn rheolaidd, efallai y gallwch arbed arian ac adnoddau drwy edrych ar eich arferion a ffyrdd o atal gwastraff. Mae adnoddau am ddim ar gael yma <a href="#">Map Llwybr Lleihau Gwastraff Bwyd   WRAP</a>  Mae'r rheoliadau'n berthnasol i fwyd ond nid diodydd (Cod Ymarfer adran 4.13).
Beth am gwpanau coffi/dŵr papur ailgylchadwy wedi'u defnyddio?	Mae angen gwahanu'r rhan fwyaf o gwpanau coffi (oni bai bod ganddynt leinin plastig biogdiraddadwy neu gompostadwy) i'w hailgylchu. Nodir hyn yn atodiad 2 y Cod Ymarfer.
A oes modd ailgylchu cwpanau coffi tecawê, os felly, i ba adran maen nhw'n mynd – cardbord neu blastig?	O dan y rheoliadau mae'n ofynnol ichi wahanu cwpanau tecawê (oni bai bod ganddynt leinin plastig biogdiraddadwy neu gompostadwy). Fel lleiafswm, dylid eu cyflwyno ar wahân i'w casglu gyda metel a phlastig. Fodd bynnag, gellir eu casglu a'u cyflwyno ar wahân hefyd. Gweler atodiad 2 o'r Cod Ymarfer am fanylion.

Cwestiwn	Ateb
Rydyn ni'n rhoi padiau budr drwy'r peiriant mwydo, a allwn ni barhau â'r broses hon?	Er nad ydynt wedi'u cynnwys yn uniongyrchol gan y rheoliadau newydd, dylai padiau budr gael eu categoreiddio fel gwastraff budr neu glinigol a rhaid eu casglu ar wahân. Dylech gysylltu â chontractwr gwastraff addas i gasglu'r deunydd hwn.
Pa fag ydyn ni'n rhoi tecstilau ynddo?	Mae'r gofynion i wahanu yn berthnasol i decstilau heb eu gwerthu yn unig. Dylai eich contractwr allu cynnig casgliadau ad-hoc i chi pan fydd eu hangen arnoch. Mae'r diffiniad o 'heb ei werthu' wedi'i nodi yn adran 9 y Cod Ymarfer – Geirfa.
Rydym yn cynhyrchu symiau bach o fathau eraill o wastraff – tecstilau, nwyddau trydanol, sgil-gynhyrchion cynnal a chadw – nad ydynt yn cyfiawnhau casgliadau rheolaidd. Sut ydyn ni'n delio â'r rhain?	Efallai y bydd eich contractwr gwastraff yn gallu cynnig casgliad ad-hoc, os na allant, gallwch gysylltu â'ch cyngor lleol neu gasglwr arall.
Beth ydyn ni'n ei wneud gyda thywelion papur?	Rhowch nhw yn y bin gwastraff na ellir ei ailgylchu (gweler atodiad 3 o'r Cod Ymarfer).
Pam ein bod 6 – 7 wythnos i ffwrdd o roi'r ddeddfwriaeth ar waith ac nid yw ein casglwr gwastraff wedi gallu cyfathrebu hyd yma pa seilwaith y bydd ei angen ar gyfer casgliadau gwastraff? h.y. bagiau, biniau olwyn ac ati ar ymyl y palmant.	Mae rhai casglwyr gwastraff yn dal i gadarnhau eu trefniadau. Cysylltwch â nhw eto i weld a yw eu cynlluniau wedi datblygu ymhellach.
A oes unrhyw ddeddfwriaeth benodol i orfodi ailgylchu gwastraff y cartref os yw'r preswlydd yn gwrthod ailgylchu.	<p>Nid ydym yn hollol siŵr beth mae'r cwestiwn hwn yn ei ofyn.</p> <p>Pan fydd gwastraff yn cael ei waredu gan leoliad preswyl (yn hytrach na deiliaid tai unigol), perchennog y busnes sy'n gyfrifol am weithredu'r rheoliadau, nid eich preswylwyr.</p> <p>Os yw'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag ailgylchu o'r cartref, yna nid yw hynny'n destun y rheoliadau hyn. Ni fyddai busnesau'n gallu defnyddio'r un pwerau gofodi â chyngor.</p>
Beth am bobl ag anableddau dysgu?	<p>Dylech wneud addasiadau priodol i'ch system i sicrhau bod pob defnyddiwr yn gallu deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud.</p> <p>Mae canllaw hawdd ei ddeall i'r rheolau newydd yma: <a href="#">Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu (llyw.cymru)</a></p> <p>Dylai defnyddio labeli a lliwiau clir a chyson drwyddi draw a sicrhau bod staff a/neu ymwelwyr/neu breswylwyr yn cael gwybodaeth</p>

Cwestiwn	Ateb
	<p>briodol am y system ailgylchu newydd fod o gymorth.</p> <p>Yna dylech fonitro effeithiolrwydd eich system a gwneud newidiadau lle mae angen gwelliannau.</p>
<p>Fel cartref preswyl bach, mae ein holl wastraff yn cael ei gasglu drwy finiau cartrefi'r cyngor. Ai felly bydd hi'n parhau i fod? A yw hyn yn fwy ar gyfer cartrefi mwy sy'n cyflogi contractwyr gwastraff ar wahân?</p>	<p>Rhaid i bob eiddo annomestig gydymffurfio â'r rheoliadau waeth beth fo'i faint. Dylech fod yn defnyddio gwasanaeth casglu gwastraff masnach a ddarperir naill ai gan eich Awdurdod Lleol neu gwmni preifat ar gyfer casglu'r holl wastraff a gynhrychir yn eich eiddo.</p>
<p><b>Cwestiynau yn ymwneud â rheoli systemau ailgylchu a gofod</b></p>	
<p>A yw gwastraff a gynhrychir gan breswylwyr mewn cartrefi gofal yn cael ei eithrio h.y. gwastraff a gynhrychir yn eu hystafelloedd a'u lolfeydd eu hunain?</p>	<p>Na, pan fo gwastraff yn cael ei gasglu a'i gyflwyno'n gymunedol gan y gweithle, mae'r rheoliadau'n berthnasol. Bydd hyn yn cynnwys gwastraff o ystafelloedd preswylwyr cartrefi gofal.</p>
<p>Sut mae cartrefi gofal yn cael preswylwyr i wahanu gwastraff? e.e. yn eu hystafelloedd eu hunain maent yn debygol o fod â bin gwastraff yn unig, a gallai ailgylchu gael ei halogi.</p>	<p>O ran ble mae biniau'n cael eu gosod, pob gweithle sydd i benderfynu beth fydd yn gweithio orau iddyn nhw. Gallai cael biniau ailgylchu a gwastraff mewn mannau cymunedol sy'n hygyrch i staff, preswylwyr ac ymwelwyr fod yn ateb yn hytrach na chael nifer o finiau ym mhob ystafell.</p>
<p>Os ydym yn disgwyl i drigolion wahanu eu gwastraff, yna bydd angen 4 bin yn lle pob un bin nawr.</p>	
<p>Sut mae dod o hyd i le ar gyfer yr holl finiau ychwanegol hyn?</p>	<p>Oes, rhaid i chi wahanu deunyddiau yn unol â'r canllawiau ailgylchu.</p> <p>Mae rhai gweithredwyr yn honni anfon dim gwastraff i safleoedd tirlenwi ac yn defnyddio technegau gwaredu eraill, er enghraifft ynni o wastraff lle mae'r gwastraff yn cael ei losgi. Bydd yr ailgylchu yn cael ei wahardd o'r broses hon o dan y rheoliadau newydd.</p>
<p>Mae fy narparwr gwastraff yn honni nad yw'n anfon unrhyw beth i safleoedd tirlenwi, ac maent yn ffrydio ein gwastraff cyffredinol ymhellach yn ogystal ag ailgylchu cymysg sych. os ydyn nhw'n gwahanu'r holl wastraff ac yn hawlio sero i safleoedd tirlenwi, a ddylwn i boeni gormod am wahanu pethau?</p>	
<p>Pam fod y GIG yn cael dwy flynedd ychwanegol i weithredu hyn?</p>	<p>Mae gan ysbytai (a dim ond ysbytai) tan Ebrill 2026 i gydymffurfio â'r gwahaniad oherwydd cymhlethdodau gweithredu hyn mewn ysbyty. Fodd bynnag, mae gwastraff a gynhrychir gan unrhyw ymgymeriadau trydydd parti ar safle'r ysbyty, er enghraifft siopau papurau newydd neu gaffis neu fasnachfreintiau siopau coffi, yn dod o dan y gofynion gwahanu o 6 Ebrill 2024. Gweler adran 5.13 o'r Cod Ymarfer.</p>
<p>Ydy'r biniau gwahanol yn cael eu darparu?</p>	<p>Bydd angen i chi siarad â'ch casglwr gwastraff.</p>
<p>A oes unrhyw gymorth ariannol ar gael gan fod hyn yn costio arian ychwanegol inni?</p>	<p>Nid oes cymorth ariannol ar gael.</p> <p>Mae mathau eraill o gymorth ar gael i roi'r newidiadau ar waith (amrywiaeth o ganllawiau, offer, megis canllawiau sector-benodol ac</p>

Cwestiwn	Ateb
	<p>astudiaethau achos arfer gorau, arwyddion y gellir eu lawrlwytho, asedau cyfathrebu). Er y gallai busnesau wynebu costau buddsoddi cychwynnol, rhagwelir y bydd y Rheoliadau yn cefnogi'r mwyafrif o weithleoedd dros amser i ddargyfeirio gwastraff o'r ffrwd weddilliol a lleihau faint o wastraff y maent yn ei gynhyrchu, gan arwain at gostau rheoli gwastraff is yn gyffredinol. Gweler yr enghreifftiau a roddir yn yr astudiaethau achos, Canton Food Market a Sinclair Motors <a href="#">Ffilmiau Astudiaeth Achos Ailgylchu yn y Gweithle – YouTube</a></p>
<b>Cwestiynau eraill</b>	
A oes templed ffurflen archwilio safle ar gael?	Mae llawer o dempledi sampl ar gael ar-lein i'w lawrlwytho.
A ellir anfon deunydd ailgylchadwy i'w losgi os oes angen er mwyn rheoli heintiau?	Dylid rheoli heintiau yn unol ag asesiadau risg/gweithdrefnau gweithredu diogel.
Pa fagiau ailgylchu fydd eu hangen ar gyfer y biniau ar wahân? Rhai clir/gwyn sylfaenol?	Mae'n dibynnu ar eich contractwr, siaradwch ag ef i weld beth fyddent yn ei ddarparu/argymell.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach anfonwch e-bost at [WalesRecycles@wrap.org.uk](mailto:WalesRecycles@wrap.org.uk) neu [CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk](mailto:CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk).